

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWYD YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AR NOS LUN 24AIN O DACHWEDD 2014 AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Philip Williams, Hywel Davies, Stan Williams, Iwan Jones, Falmai Evans, Elfed Williams, Barri Evans, Iona Edwards-Jones, Gwennan Hughes, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Jill Evans.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 27ain o Hydref 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd ymweliad ar gychwyn y cyfarfod oddi wrth Mr Robert Barton, Perchennog Maes Carafannau Cae'r Mynydd, mewn ymateb i ymholiad y Cyngor Cymuned ynglŷn am gofrestr o bobl sydd yn aros yn y safle. Sicrhawyd Mr Barton ei fod yn cadw'r gofrestr a chadw o fewn y rheolau ac yn y blaen. Diolchwyd y Cadeirydd i Mr Barton am yr wybodaeth a'i bresenoldeb ar gychwyn y cyfarfod.

B. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Adran Trafnidiaeth Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau bod y safle bws wrth Gapel Saron yn y lle ddiogelwch ac nad oes yna ddigon o le i ail leoli'r safle bws wrth Maes-yr-Yrfa yn Saron. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gwneud ymholiadau am gostau llochesi fysiau erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

C. Derbyniwyd gwybodaeth oedd y Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch wedi ei dderbyn oddi wrth "Natural Power" ynglŷn a thynnu yn ôl trafodaethau'r gronfa budd cymunedol ar ôl penderfyniad y cais cynllunio Pant-y-Maen, Nantglyn.

D. Derbyniwyd yr aelodau gopi o'r adroddiad Cynigion ar gyfer y Gyllideb Cyngor Sir Ddinbych.

4. CYLLID.

Taliadau:-

A. Cyngor Sir Ddinbych – cyfarfod y Cyngor - £15.00.

B. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2014 - £360.00.

C. PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2014 - £90.00.

D. Y Lleng Prydeinig Brenhinol am Dorch Pabi - £40.00.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cynllun fesul cam ar gyfer cabanau yn Brŷn Morfydd, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

B. Estyniad a gwellau i Fron Ystrad, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

C. Ail drefnu'r Maes Carafannau Cae'r Mynydd, Saron - penderfynwyd ar y sylwadau canlynol:-

1. Mi fydd yna mwy o boblogaeth ar y safle Maes Carafannau i gymharu â thrigolion pentref Saron.

2. Nid mae'r sustemau dwr, trydan ac yn y blaen gallu cymered ychwaneg o bobl i'r Maes Carafannau.

## 6. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Siop-y-Pentre yn gwrthwynebu'r Cyngor Sir Ddinbych am symud a chadw'r "A Boards" o du allan o'r Siop heb hysbyseb oherwydd iechyd a diogelwch. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych yn cwyno'r hefo'r penderfyniad ac i ofyn am ychwaneg o wybodaeth.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Llinell BT yn isel wrth y groesffordd rhwng Llanrhaeadr a Prion.
2. Arwydd Prion/Saron eisiau sylw ar y groesffordd rhwng Llanrhaeadr a Prion.
3. Ffordd rhwng Capel Saron at gyfeiriad Bryn Glas eisiau sylw.
4. Ffordd Drws-y-Buddel eisiau sylw.
5. Pafin ar ddwy ochr y ffordd ar y A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr eisiau sylw.
6. Cyfer BT ar y pafin ym Mhentre' Llanrhaeadr eisiau sylw.
7. Arwydd ar y groesffordd Bryn Glas, Saron eisiau sylw.
8. Llwybr cyhoeddus wrth Gapel Saron eisiau ei thocio.

B. Rhoddwyd caniad tad i Ysgol Bro Cinmeirch symud y Bwrdd Hysbysu ym muarth yr Ysgol.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 26ain o Ionawr 2015 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.